*These notes refer to the Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (c.1) which received Royal Assent on 4 Mawrth 2013*

# DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

---

## EXPLANATORY NOTES

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Ionawr 2013 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 4 Mawrth 2013. Fe'u lluniwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan o’r Ddeddf.

2. Mae'r pwerau i wneud y Ddeddf i'w cael yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 7 iddi. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ar gyfer y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mewn cysylltiad â hi, yn rhinwedd Atodlen 7, pwnc 5 (addysg a hyfforddiant) a phwnc 9 (iechyd a gwasanaethau iechyd).

3. Yn y Nodiadau Esboniadol hyn, ystyr “Deddf 1998” yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 1 – Cyflwyniad

#### *Adran 1 – Trosolwg ar y Ddeddf hon*

4. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg ar ddarpariaethau allweddol y Ddeddf. Mae 6 Rhan a 5 Atodlen i'r Ddeddf.

### Rhan 2 – Safonau

5. Mae Penodau 1 a 2 o Ran 2 o’r Ddeddf hon yn diwygio'r gyfraith bresennol mewn cysylltiad ag ymyrraeth gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac ymyrraeth gan Weinidogion Cymru ym materion arfer swyddogaethau addysg gan awdurdodau lleol.

6. Yn gyffredinol, mater i’r awdurdod lleol yn y lle cyntaf fydd cymryd camau mewn cysylltiad ag ysgolion sy'n peri pryder, a dim ond pan fo’r awdurdod wedi methu â’u cymryd, neu pan fo wedi cymryd camau ond wedi gwneud hynny mewn modd annigonol, y bydd Gweinidogion Cymru fel arfer yn cymryd camau.

#### *Adran 2 - Y seiliau dros ymyrryd*

7. Mae'r adran hon yn nodi’r wyth sail dros ymyrraeth gan awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru mewn ysgol a gynhelir.

8. Mae'r seiliau dros ymyrryd a nodir yn yr adran hon yn disodli'r seiliau a nodir yn adran 15(2)(a) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (‘Deddf 1998’), gyda

diwygiadau. Yn ychwanegol, mae seiliau 5 a 6 wedi eu sylfaenu ar bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru yn adrannau 497 a 496, yn y drefn honno, o Ddeddf Addysg 1996 (gweithredu afresymol gan gorff llywodraethu neu ei fethiant i gydymffurfio â dyletswydd). Mae cynnwys darpariaethau adrannau 496 a 497 o Ddeddf Addysg 1996 fan hyn yn golygu y caiff awdurdodau lleol yn ogystal â Gweinidogion Cymru ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir ar sail methiant corff llywodraethu i gydymffurfio â dyletswydd neu weithredu afresymol ganddo. Erbyn hyn, mae seiliau 5 a 6 hefyd yn cynnwys cyfeiriad at fethiant pennaeth i gydymffurfio â dyletswydd neu weithredu afresymol ganddo.

### *Adran 3 – Hysbysiad rhybuddio*

9. Mae'r adran hon yn darparu y caiff yr awdurdod lleol, os yw un neu ragor o seiliau 1 i 6 a nodir yn adran 2 yn bodoli, roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol, ac mae'n pennu pa wybodaeth y mae'n rhaid i hysbysiad rhybuddio ei chynnwys. Yn gyffredinol, dechrau'r broses ymyrryd gan awdurdod lleol mewn ysgol yw'r hysbysiad rhybuddio a gall arwain at y pwerau ymyrryd yn cael eu harfer ganddo.

### *Adran 4 – P#er i ymyrryd*

10. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff awdurdod lleol arfer y pwerau i ymyrryd mewn ysgol a gynhelir. Nodir y pwerau ymyrryd yn adrannau 5 i 9.

11. Pan fo awdurdod lleol wedi ei fodloni bod un neu ragor o seiliau 1 i 6 yn bodoli, ac wedi cydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio a nodir yn adran 3, yna caiff arfer ei bwerau ymyrryd. Fodd bynnag, os yw awdurdod lleol o'r farn bod un neu ragor o seiliau 1 i 6 yn bodoli a hefyd o’r farn bod risg gysylltiedig i iechyd a diogelwch unrhyw berson a honno'n risg sy'n galw am weithredu brys, yna nid oes rhaid iddo gydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio cyn arfer ei bwerau ymyrryd.

12. Yn ychwanegol, caiff yr awdurdod lleol arfer ei bwerau ymyrryd os yw wedi ei fodloni bod sail 7 neu sail 8 yn bodoli (ysgolion y mae arolygiad wedi barnu bod arnynt angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig). Yn yr achos hwn, nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddyroddi hysbysiad rhybuddio.

### *Adran 5 – P#er i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau cyngor neu gydlafurio*

13. Mae'r adran hon yn darparu p#er newydd i awdurdod lleol gyfarwyddo corff llywodraethu ysgol i wneud trefniadau neu ymrwymo i gontract i ddarparu gwasanaethau cynghori, neu i gydlafurio yn unol ag adran 5(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011, er mwyn gwella perfformiad yr ysgol.

### *Adran 6 – P#er i benodi llywodraethwyr ychwanegol*

14. Mae'r adran hon yn disodli'r p#er ymyrryd yn adran 16 o Ddeddf 1998, ac yn darparu i awdurdodau lleol b#er i benodi llywodraethwyr ychwanegol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir.

### *Adran 7 – P#er awdurdod lleol i gyfansoddi corff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim*

15. Mae'r adran hon yn disodli'r p#er ymyrryd yn adran 16A o Ddeddf 1998. Mae'n darparu i awdurdodau lleol b#er i benodi corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn arbennig yn lle'r llywodraethwyr presennol mewn ysgol pan fo gan yr awdurdod lleol b#er i ymyrryd. Gelwir y corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn arbennig yn fwrdd gweithrediaeth interim a bydd yn cymryd drosodd y gwaith o redeg yr ysgol. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch byrddau gweithrediaeth interim.

### *Adran 8 – P#er awdurdod lleol i atal dros dro yr hawl i gael cyllideb ddirprwyedig*

16. O dan adran 49 o Ddeddf 1998, mae gan bob ysgol a gynhelir hawl i gael cyllideb ddirprwyedig, sy'n golygu bod gan eu cyrff llywodraethu hawlogaeth i reoli cyllideb yr ysgol. Mae'r adran hon yn disodli'r p#er ymyrryd yn adran 17 o Ddeddf 1998, ac yn darparu p#er i awdurdodau lleol atal dros dro hawl ysgol i gael cyllideb ddirprwyedig os oes gan awdurdod lleol y p#er i ymyrryd yn yr ysgol.

### *Adran 9 – P#er cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau*

17. Mae'r adran hon yn darparu p#er cyffredinol i'r awdurdod lleol ddyroddi'r cyfarwyddiadau hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol i gorff llywodraethu neu bennaeth ysgol y mae'r awdurdod yn ei chynnal, a chymryd unrhyw gamau eraill, pan fo un neu ragor o'r seiliau dros ymyrryd yn bodoli.

18. Mae'r adran hon yn disodli adran 62 o Ddeddf 1998 (p#er awdurdod lleol i atal methiant mewn disgyblaeth). Mae hefyd yn darparu i awdurdodau lleol bwerau tebyg i bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru yn adrannau 496 a 497 o Ddeddf Addysg 1996 (ond yn annhebyg i adrannau 496 a 497, nid yw'r p#er i ymyrryd yma yn gyfyngedig i'r achosion hynny lle y mae sail 5 neu sail 6 yn bodoli).

### *Adran 10 – Hysbysiad rhybuddio*

19. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad rhybuddio ffurfiol i ysgol a gynhelir. Yn gyffredinol, dechrau'r broses ymyrryd gan Weinidogion Cymru mewn ysgol yw hysbysiad rhybuddio, a gall arwain at bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru yn cael eu harfer.

20. Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol pan fo un neu ragor o seiliau 1 i 6 (a nodir yn adran 2) yn bodoli, ond bod yr awdurdod lleol heb roi hysbysiad rhybuddio neu wedi gwneud hynny mewn termau sy'n annigonol ym marn Gweinidogion Cymru. Bydd yr hysbysiad rhybuddio yn esbonio i'r corff llywodraethu y rhesymau pam y mae'n cael ei roi a'r camau y dylai'r corff llywodraethu eu cymryd.

### *Adran 11 – P#er Gweinidogion Cymru i ymyrryd*

21. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru arfer y pwerau i ymyrryd mewn ysgol a gynhelir. Nodir y pwerau ymyrryd yn adrannau 12 i 17 o'r Ddeddf.

22. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu ragor o seiliau 1 i 6 yn bodoli, ac wedi cydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio a nodir yn adran 10, cânt arfer eu pwerau ymyrryd. Fodd bynnag, os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu ragor o seiliau 1 i 6 yn bodoli a bod risg gysylltiedig i iechyd a diogelwch unrhyw berson a honno'n risg sy'n galw am weithredu brys, yna nid oes rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio cyn arfer eu pwerau ymyrryd.

23. Yn ychwanegol, caiff Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau ymyrryd os ydynt wedi eu bodloni bod sail 7 neu sail 8 yn bodoli (ysgolion y mae arolygiad wedi barnu bod arnynt angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig). Yn yr achos hwn, nid oes rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio.

### *Adran 12, 13 a 14 – Pwerau Gweinidogion Cymru, etc*

24. Mae'r adrannau hyn yn darparu pwerau sy'n adlewyrchu pwerau'r awdurdod lleol a geir yn adran 5, 6 a 7.

### *Adran 15 – P#er Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgolion yn cael eu ffedereiddio*

25. Mae'r adran hon yn disodli'r p#er ymyrryd yn adran 18B o Ddeddf 1998 ac yn darparu i Weinidogion Cymru b#er i ddyroddi cyfarwyddiadau ynghylch ffedereiddio ysgolion. Mae ffederasiwn o ysgolion yn gr#p o ddwy neu ragor o ysgolion o dan un corff llywodraethu.

### *Adran 16 – P#er Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau*

26. Mae'r adran hon yn disodli'r p#er ymyrryd yn adran 19 o Ddeddf 1998 ac yn darparu i Weinidogion Cymru b#er i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau os oes ganddynt b#er i ymyrryd ar dir sail 8 (ysgol y mae arni angen mesurau arbennig). Pan fo Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau o dan yr adran hon, nid oes angen i awdurdod lleol wneud cynigion i derfynu'r ysgol o dan Ran 3.

### *Adran 17 – P#er cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau*

27. Mae'r adran hon yn darparu p#er sy'n adlewyrchu p#er yr awdurdod lleol yn adran 9 (p#er cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau).

### *Adrannau 18, 19 ac 20 ac Atodlen 1 – Darpariaethau atodol*

28. Mae adran 18 yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â byrddau gweithrediaeth interim (a gyfansoddwyd yn dilyn cyfarwyddyd o dan adran 7 neu 14). Mae'n ymwneud â'r trosi o gorff a gyfansoddwyd yn normal i gorff o aelodau gweithrediaeth interim, a hefyd y trosi o gorff llywodraethu o aelodau gweithrediaeth interim yn ôl i gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal. Yn ystod y cyfnod y mae'r aelodau gweithrediaeth interim yn eu swyddi, rhaid iddynt gyflawni swyddogaethau aelodau'r corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal. Mae hyn yn golygu eu bod yn ddarostyngedig i'r un gyfraith ag aelodau'r corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal, ac eithrio mewn perthynas â'u cyfansoddiad a gweithdrefn (paragraff 13 o Atodlen 1). Fodd bynnag, caniateir i reoliadau a wneir o dan baragraffau penodol o adran 19(3) o Ddeddf Addysg 2002 gael eu cymhwyso i'r bwrdd, er enghraifft, mewn perthynas â materion staffio ysgolion.

29. Mae adran 19 yn darparu bod yn rhaid i bennaeth neu gorff llywodraethu ysgol gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo gan awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru o dan Bennod 1 o Ran 2 o'r Ddeddf hon. Rhaid i gyfarwyddyd fod yn ysgrifenedig a chaniateir ei orfodi drwy orchymyn mandadol llys.

30. Mae adran 20 yn darparu p#er i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol o ran arfer eu swyddogaethau o dan y Bennod hon. Yn unol â hynny, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau o'r fath.

### *Pennod 2 - Ymyrryd mewn Awdurdodau Lleol*

31. Mae'r Bennod hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru ymyrryd yn y ffordd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau addysg (sef y swyddogaethau hynny a nodir yn Atodlen 36A i Ddeddf Addysg 1996).

### *Adran 21 – Y seiliau dros ymyrryd*

32. Mae'r adran hon yn nodi'r seiliau dros ymyrryd y mae'n rhaid iddynt fodoli i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn awdurdod lleol. Mae'r seiliau hyn yn disodli'r seiliau dros ymyrryd mewn awdurdodau lleol a nodir yn adrannau 496 i 497A o Ddeddf Addysg 1996 o ran Cymru. Os yw un neu ragor o'r seiliau hyn yn bodoli, caiff Gweinidogion Cymru ddechrau'r broses ymyrryd.

33. Ni fydd adrannau 496 i 497A o Ddeddf Addysg 1996 bellach yn gymwys ond i awdurdodau lleol yn Lloegr.

### *Adran 22 – Hysbysiad rhybuddio*

34. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, os yw un neu ragor o'r tair sail a nodir yn adran 21 yn bodoli, ddyroddi hysbysiad rhybuddio i'r awdurdod lleol, ac mae'n pennu pa wybodaeth y mae'n rhaid i hysbysiad rhybuddio ei chynnwys. Rhaid i'r hysbysiad rhybuddio, ymhlith pethau eraill, esbonio pam y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y seiliau dros ymyrryd yn bodoli a'r hyn y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei wneud i ymdrin â hwy. Yn gyffredinol, dechrau'r broses ymyrryd gan Weinidogion Cymru mewn awdurdod lleol yw hysbysiad rhybuddio, a gall arwain at bwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru yn cael eu harfer.

### *Adran 23 – P#er Gweinidogion Cymru i ymyrryd*

35. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru arfer y pwerau i ymyrryd mewn awdurdod lleol. Nodir y pwerau ymyrryd yn adrannau 24 i 28.

36. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu ragor o seiliau 1 i 3 yn bodoli, a'u bod wedi cydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio a nodir yn adran 22, yna cânt arfer eu pwerau ymyrryd. Fodd bynnag, os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod un neu ragor o seiliau 1 i 3 yn bodoli a bod risg gysylltiedig i iechyd a diogelwch unrhyw berson a honno'n risg sy'n galw am weithredu brys, neu fod yr awdurdod lleol yn annhebyg o allu cydymffurfio neu sicrhau cydymffurfedd â hysbysiad rhybuddio, yna nid oes rhaid iddynt gydymffurfio â'r weithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad rhybuddio cyn arfer eu pwerau ymyrryd.

### *Adran 24 – P#er i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gael gwasanaethau cynghori*

37. Mae'r adran hon yn disodli'r p#er ymyrryd yn adran 63 o Ddeddf Addysg 2002 ac yn darparu p#er i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod lleol i gael gwasanaethau cynghori gan drydydd parti.

### *Adran 25 – P#er i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan bersonau eraill ar ran awdurdod*

38. Mae'r adran hon yn darparu p#er i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol i ddefnyddio gwasanaethau trydydd parti i gyflawni ei swyddogaethau.

### *Adran 26 – P#er i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu enwebai*

39. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo bod swyddogaethau awdurdod lleol yn cael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu berson a enwebir gan Weinidogion Cymru.

### *Adran 27 – P#er i gyfarwyddo'r modd y mae swyddogaethau addysg eraill yn cael eu harfer*

40. Mae adran 27 yn galluogi Gweinidogion Cymru, wrth ddyroddi cyfarwyddiadau o dan adran 25 neu 26, i gynnwys cyfarwyddiadau sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o swyddogaethau addysg yr awdurdod lleol, ac nid yn unig y swyddogaethau hynny y mae'r pwerau ymyrryd yn ymwneud â hwy**.**

### *Adran 28 – P#er cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau*

41. Pan fo'r p#er i ymyrryd yn bodoli, mae'r adran hon yn darparu p#er cyffredinol i roi cyfarwyddiadau i awdurdod lleol, a chymryd camau mewn perthynas ag ef. Mae cymryd camau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud pethau eraill y maent yn ystyried y gallent helpu i ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd, ac eithrio gwneud cyfarwyddyd.

### *Adran 30 – Dyletswydd i gydweithredu*

42. Mae'r adran hon, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu gynorthwyo gyda'r camau y mae'n ofynnol eu cymryd i gydymffurfio â chyfarwyddiadau, yn disodli adran 497AA o Ddeddf Addysg 1996 (p#er i sicrhau bod swyddogaethau'n cael eu cyflawni'n briodol: dyletswydd awdurdod pan fo cyfarwyddiadau'n cael eu hystyried) gyda rhai diwygiadau.

### *Adran 31 – Pwerau mynd i mewn ac arolygu*

43. Mae'r adran hon, sy'n nodi hawliau mynediad mewn cysylltiad â chyflawni cyfarwyddiadau, yn disodli adran 497B o Ddeddf Addysg 1996 (p#er i sicrhau bod swyddogaethau'n cael eu cyflawni'n briodol: darpariaethau pellach) gyda rhai diwygiadau.

### *Pennod 3 – Canllawiau Gwella Ysgolion*

44. Mae'r Bennod hon yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i benaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau er mwyn gwella safonau addysg.

### *Adran 32 - Ystyr “awdurdod ysgol”*

45. Mae'r adran hon yn diffinio'r term “awdurdod ysgol” i olygu awdurdod lleol, corff llywodraethu neu bennaeth ysgol a gynhelir yng Nghymru.

### *Adran 33 - P#er i ddyroddi canllawiau gwella ysgolion*

46. Mae adran 33 yn darparu p#er i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau ysgol sy’n nodi'r ffordd y maent i wella safonau addysg mewn ysgolion.

### *Adran 34 - Ymgynghori a gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

47. Mae adran 34 yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn dyroddi canllawiau gwella ysgolion. Ymhlith pethau eraill mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ynghylch y canllawiau a gosod copi ohonynt gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### *Adran 35 - Dyletswydd i ddilyn canllawiau gwella ysgolion*

48. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau ysgol i gydymffurfio â'r canllawiau a ddyroddir o dan adran 33.

49. Mae'r adran hon yn caniatáu i awdurdodau ysgol wyro oddi wrth y canllawiau hynny mewn amgylchiadau penodol er mwyn darparu ar gyfer rhywfaint o hyblygrwydd ac arloesi. Pan fo awdurdod ysgol sy’n awdurdod lleol neu’n gorff llywodraethu yn dymuno gwyro oddi wrth y canllawiau, rhaid iddo ddyroddi datganiad polisi gan roi manylion ynghylch ei bolisi amgen ar gyfer arfer y swyddogaethau addysg o dan sylw. Yna, rhaid iddo ddilyn y polisi amgen hwnnw. Os bydd yr awdurdodau ysgol yn gwyro'n rhannol oddi wrth y canllawiau (is-adran (2) neu (3) ac adran 36), bydd yn rhaid iddynt lynu wrth y datganiad polisi ac (i'r graddau nad yw'r datganiad polisi yn ymwneud â mater) y canllawiau.

50. Yn ychwanegol, ni fydd y ddyletswydd i ddilyn y canllawiau gwella ysgolion neu ddatganiad polisi yn gymwys o ran unrhyw awdurdod ysgol pe byddai gwneud hynny'n afresymol.

### *Adran 37 - Cyfarwyddiadau*

51. Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried nad yw'r ffordd amgen o weithredu a nodir yn natganiad polisi awdurdod ysgol yn debyg o wella safonau addysgol, cânt ddyroddi

i'r awdurdod ysgol gyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r canllawiau. Rhaid dyroddi cyfarwyddyd yn ysgrifenedig a chaniateir ei orfodi drwy orchymyn mandadol.

## Rhan 3: Trefniadaeth Ysgolion

52. Mae Rhan 3 yn diwygio ac yn dwyn ynghyd mewn un lle y gyfraith sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion ar gyfer Cymru; yn ei gwneud yn ofynnol i God newydd am Drefniadaeth Ysgolion gael ei gyhoeddi; ac yn creu fframwaith newydd ar gyfer penderfynu ar gynigion sy'n derbyn gwrthwynebiadau, gan gynnwys proses symlach ar gyfer cynigion i gau ysgolion sydd â llai na 10 disgybl.

### *Adrannau 38 a 39 - Y Cod Trefniadaeth Ysgolion etc.*

53. Mae adran 38 yn creu gofyniad i Weinidogion Cymru ddyroddi a chyhoeddi cod (neu godau) am drefniadaeth ysgolion ("y Cod") y mae'n rhaid i'r personau a restrir yn is-adran (2) weithredu yn unol ag ef os yw'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny. Caiff y Cod hefyd gynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion a materion eraill y mae'n rhaid i'r personau a enwir roi sylw iddynt.

54. Mae adran 39 yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn dyroddi'r Cod. Ymhlith pethau eraill mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ynghylch y Cod a gosod copi ohono gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### *Adran 40 - Cyfyngu ar sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir*

55. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol a gynhelir gael ei hagor neu ei chau, neu i newid sylweddol (a elwir yn 'newid rheoleiddiedig') gael ei wneud, yn unol â'r prosesau a nodir yn y Rhan hon – ac eithrio pan fo Gweinidogion Cymru yn defnyddio eu p#er ymyrryd i gyfarwyddo bod ysgol yn cael ei chau o dan adran 16. Nodir y newidiadau rheoleiddiedig yn Atodlen 2. Mae is-adran (2) o adran 40 yn gwahardd sefydlu ysgol sefydledig newydd neu ysgol arbennig sefydledig newydd yng Nghymru. Mae is-adran (5) yn gwahardd unrhyw newid i ysgol a gynhelir sy'n newid ei chymeriad crefyddol neu'n peri iddi gaffael neu golli cymeriad crefyddol.

56. Gwnaed darpariaeth debyg yn adrannau 28(11) a 33 o Ddeddf 1998.

### *Adrannau 41 i 44 ac Atodlen 2 - Cynigion y caniateir iddynt gael eu gwneud mewn cysylltiad ag ysgolion yng Nghymru*

57. Mae'r adrannau hyn yn rhoi i awdurdodau lleol b#er i wneud cynigion:

- i sefydlu ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol, ysgol feithrin a gynhelir neu ysgol arbennig gymunedol;
- i derfynu ysgol gymunedol, ysgol feithrin a gynhelir, ysgol wirfoddol, ysgol sefydledig neu ysgol arbennig gymunedol;
- i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol gymunedol, ysgol feithrin a gynhelir neu ysgol arbennig gymunedol;
- i wneud newid rheoleiddiedig i gynyddu neu leihau capasiti mewn ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig nad oes ganddi gymeriad crefyddol;
- i wneud newid rheoleiddiedig i agor neu gau chweched dosbarth ysgol mewn ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

58. Yn ychwanegol, caiff unrhyw berson wneud cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol a chaiff corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol wneud cynigion i wneud newid rheoleiddiedig i'r ysgol neu i derfynu'r ysgol.

59. Mae Atodlen 2 yn nodi'n fanwl y newidiadau rheoleiddiedig y caniateir eu gwneud i ysgol. Ymhlith newidiadau eraill mae'n caniatáu ar gyfer:

- newidiadau i gapasiti'r ysgol (paragraffau 10 i 14). Wrth bwyso a mesur a yw capasiti'r ysgol wedi newid, mae newidiadau blaenorol i'w hystyried fel na ellir gwneud newidiadau i'r capasiti yn gynyddrannol heb yr angen i wneud cynigion;
- cynnydd neu leihad yn ystod oedran yr ysgol (paragraff 5). Nid yw cynnydd yn ystod oedran uchaf ysgol yn caniatáu i chweched dosbarth gael ei ychwanegu. Mae darpariaeth ar wahân yn yr Atodlen (ym mharagraff 6) yn caniatáu i chweched dosbarth gael ei ychwanegu at ysgol (neu ei dynnu oddi wrthi);
- newidiadau i gyfrwng iaith yr ysgol (paragraffau 7 ac 8). Mae'r rhain wedi eu diweddaru ers Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 i adlewyrchu cyflwyno'r cyfnod sylfaen a methodolegau addysgu mewn ysgolion cynradd; nid yw'r rhain bellach yn cyfeirio at bynciau ond yn hytrach at ganrannau'r amser a dreulir yn addysgu disgyblion.

60. Mae paragraff 26 o'r Atodlen yn darparu p#er i Weinidogion Cymru ychwanegu, newid neu ddileu newid rheoleiddiedig drwy Orchymyn.

61. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu seilio ar adrannau 28, 29 ac 31 o Ddeddf 1998 a'r rheoliadau a wnaed o dan y pwerau hyn.

### *Adran 45 i 47 - Newid categori ysgol etc.*

62. Rhennir ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol (ac eithrio ysgolion meithrin a gynhelir) i gategorïau gwahanol a nodir yn adran 20 o Ddeddf 1998. Mae adrannau 45 i 47 (yn seiliedig ar adran 35 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 7 iddi) yn manylu ar bwy gaiff wneud cynigion i newid categori ysgol; mae’r grid isod yn crynhoi hyn (ystyr WG yw ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ystyr WR yw ysgol wirfoddol a reolir ac ystyr CLl yw corff llywodraethu).

| *Categori o ysgol* | *Gall ddod yn* | *Cynigydd* |
|---|---|---|
| Ysgol gymunedol | WG neu WR | CLl |
| Ysgol WG | Ysgol gymunedol neu WR | CLl |
| WR | Ysgol gymunedol neu WG | CLl |
| Ysgol sefydledig | Ysgol gymunedol, WG neu WR | CLl |

63. Ni chaiff ysgol newid categori i ddod yn ysgol sefydledig neu’n ysgol arbennig sefydledig. Ni chaiff ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol â chymeriad crefyddol newid categori i ddod yn ysgol gymunedol.

64. Er mwyn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir rhaid i gorff llywodraethu fodloni Gweinidogion Cymru y gall fodloni ei rwymedigaethau ariannol am gyfnod o bum mlynedd o leiaf ar ôl i'r newid categori ddigwydd (adran 46).

65. Nid yw newid categori yn awdurdodi unrhyw newid yng nghymeriad crefyddol yr ysgol nac yn ei hawdurdodi i sefydlu corff sefydledig (fel y'i diffinnir yn adran 21 o Ddeddf 1998), nac i ymuno neu ymadael â chorff o'r fath.

66. Os yw ysgol i ddod yn ysgol gymunedol, rhaid bod y cytundebau trosglwyddo y ceir manylion amdanynt yn Atodlen 4 wedi eu gwneud.

### *Adran 48 - Cyhoeddi ac ymgynghori*

67. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol bod ymgynghoriad ar gynigion trefniadaeth ysgol a'u bod yn cael eu cyhoeddi. Bydd y Cod yn nodi'r gofynion ar gyfer

ymgynghori ac yn ymwneud â sut a phryd y mae cyhoeddi cynigion. Rhaid i gynigwyr gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad. Rhaid i'r cynigwyr anfon copïau o'r cynigion cyhoeddedig at Weinidogion Cymru, ac at yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys yn achos cynigion i derfynu ysgol fach, sef un sydd â llai na 10 disgybl cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth o'r mis Ionawr blaenorol (fe'i diffinnir yn adran 56). Hwn yw'r dyddiad y cynhelir y Cyfrifiad Blynyddol Ysgolion (ac felly, bydd modd gwybod nifer y disgyblion sydd mewn ysgol ar y dyddiad hwnnw).

### *Adran 49 - Gwrthwynebu*

68. Mae adran 49 yn galluogi unrhyw berson i wrthwynebu cynigion yn ysgrifenedig o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad cyhoeddi (a elwir “y cyfnod gwrthwynebu”) ac yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau a wnaed ynghyd â’u hymatebion i'r gwrthwynebiadau hynny cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r cyfnod gwrthwynebu'n dod i ben. Ond os yw awdurdod lleol yn penderfynu ar ei gynigion ei hun, rhaid iddo gyhoeddi’r crynodeb a’r ymateb o fewn 7 o ddiwrnodau o’i benderfyniad o dan adran 53. Bydd awdurdod lleol yn penderfynu ar ei gynigion ei hun os nad yw’n ofynnol iddynt gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 50.

### *Adrannau 50 i 53 - Cymeradwyo cynigion a phenderfynu arnynt*

69. Pan fo cynigion yn ymwneud ag addysg chweched dosbarth neu pan fo’r awdurdod lleol perthnasol wedi gwrthwynebu cynigion, mae’n ofynnol i Weinidogion Cymru gymeradwyo’r cynigion. Pan fo cynigion wedi cael gwrthwynebiadau (gan berson heblaw’r awdurdod lleol), ond nid yw’n ofynnol i Weinidogion Cymru eu cymeradwyo, mae’n ofynnol i’r awdurdod lleol perthnasol eu cymeradwyo. Yr awdurdod lleol sy’n cynnal yr ysgol dan sylw, neu a fydd yn ei chynnal, yw’r awdurdod lleol perthnasol.

70. Pan fo’n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo, caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol wrthod y cynigion, eu cymeradwyo heb eu haddasu neu eu cymeradwyo gydag addasiadau. Caiff awdurdod lleol ond addasu’r dyddiad y bwriedir gweithredu’r cynigion neu’r nifer derbyn. Cyn gwneud addasiad, rhaid i awdurdod lleol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru a’r cynigydd; rhaid i Weinidogion Cymru gael cydsyniad y cynigydd.

71. Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol drin unrhyw gynigion eraill sy’n ymwneud â chynigion y mae’n ofynnol iddynt eu cymeradwyo, fel cynigion sydd hefyd yn ofynnol iddynt eu cymeradwyo.

72. Pan na fo’n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo, y cynigydd fydd yn penderfynu a ddylid eu gweithredu.

### *Adran 54 – Eu hatgyfeirio i Weinidogion Cymru*

73. Pan fo awdurdod lleol wedi penderfynu cymeradwyo neu wrthod cynigion, neu wedi penderfynu gweithredu cynigion yr oedd gwrthwynebiad iddynt, caiff y cyrff a nodir yn is-adran (2) atgyfeirio’r cynigion at Weinidogion Cymru am eu cymeradwyaeth hwythau.

### *Adran 55 ac Atodlenni 3 a 4 - Gweithredu*

74. Mae adran 55 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i gynigion sydd wedi eu cymeradwyo, neu fod y cynigydd wedi penderfynu y dylid eu gweithredu, gael eu gweithredu ar y ffurf y cawsant eu cymeradwyo neu eu penderfynu, ac yn unol ag Atodlen 4 ar gyfer cynigion newid categori, neu'n unol ag Atodlen 3 ar gyfer pob math arall o gynnig.

75. Mae Atodlen 3 yn darparu manylion pellach ynghylch gweithredu cynigion statudol gan gynnwys cyfrifoldebau ar gyfer gweithredu mathau gwahanol o gynigion, a darparu

mangreoedd a chymorth. Mae Atodlen 4 yn darparu manylion pellach ynghylch gweithredu'r cynigion newid categori, gan gynnwys trosglwyddo staff a thir. Mae'r Atodlen hon yn darparu ar gyfer ac yn nodi'r broses y mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ei rhoi ar waith i weithredu'r cynigion i newid categori ac yn gwneud darpariaeth debyg i'r un a geir yn Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001. Mae'n nodi, ymhlith pethau eraill, y manylion ynghylch sut y mae trosglwyddo staff a thir. Mae p#er yn cael ei ddarparu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â sut y mae newid categori yn cael effaith ar lywodraethu'r ysgol.

76. Caiff y cynigydd ohirio penderfyniad hyd at dair blynedd, neu benderfynu peidio â gweithredu'r cynigion o gwbl, os yw wedi ei fodloni y byddai gweithredu'r cynigion yn afresymol o anodd neu fod amgylchiadau wedi newid i'r fath raddau fel y byddai'r gweithredu hwnnw yn amhriodol. Caiff y cynigydd hefyd benderfynu dod â’r gweithredu ynghynt am gyfnod sydd hyd at 13 o wythnosau.

77. Wrth wneud y penderfyniadau hynny, rhaid i'r cynigydd hysbysu'r corff llywodraethu priodol a'r awdurdod lleol (pan nad yw un o'r ddau hyn yn gynigydd). Pan fo'r cynigion wedi cael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru neu awdurdod lleol, rhaid i'r cynigydd gael cytundeb Gweinidogion Cymru cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ohirio, rhoi'r gorau i unrhyw weithredu neu ddod â’r cyfnod gweithredu ynghynt.

78. Mae adran 55 ac Atodlen 3 yn disodli, gyda diwygiadau, Atodlen 6 i Ddeddf 1998. Mae Atodlen 4 yn seiliedig ar Reoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001.

### *Adrannau 57 i 63 - Rhesymoli lleoedd ysgol - pwerau a gweithdrefnau*

79. Mae'r adrannau hyn yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i arfer eu pwerau o dan Bennod 2 o'r Rhan hon i wneud cynigion i gynyddu neu leihau nifer y lleoedd ysgol yn eu hardal er mwyn mynd i’r afael â darpariaeth annigonol neu ddarpariaeth ormodol - h.y. “rhesymoli lleoedd ysgol”.

80. Os yw’r awdurdod lleol yn methu â rhesymoli lleoedd ysgol, darperir pwerau i Weinidogion Cymru wneud eu cynigion eu hunain i resymoli lleoedd (ac mae'r darpariaethau hyn hefyd yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn petai'r cynigion hyn yn cael eu cyhoeddi).

81. Mae'r adrannau hyn gan mwyaf yn ailddeddfu Atodlen 7 i Ddeddf 1998.

### *Adrannau 64 i 70 - Darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig, pwerau a gweithdrefnau*

82. Mae'r adrannau hyn yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol i ystyried gwneud darpariaeth ranbarthol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig, neu i gyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i wneud trefniadau neu gynigion ar gyfer darpariaeth ranbarthol. Caiff darpariaeth ranbarthol ymwneud â darparu addysg mewn ysgol a gynhelir gan un awdurdod lleol ar gyfer plant o awdurdodau eraill, neu fod un awdurdod lleol yn darparu nwyddau a gwasanaethau i awdurdodau neu ysgolion eraill.

83. Mae adran 68 yn darparu p#er i Weinidogion Cymru wneud eu cynigion eu hunain mewn cysylltiad â darpariaeth ranbarthol (yn cynnwys y weithdrefn sydd i'w dilyn petai'r cynigion hyn yn cael eu cyhoeddi).

84. Mae'r adrannau hyn yn seiliedig ar y darpariaethau a geir yn adrannau 191 i 193 o Ddeddf Addysg 2002.

### *Adrannau 71 i 77 – Cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth*

85. Mae'r adrannau hyn, sy'n seiliedig ar adran 113A o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ac Atodlen 7A iddi, yn darparu p#er i Weinidogion Cymru wneud cynigion i sefydlu

ysgolion cymunedol newydd neu ysgolion arbennig cymunedol newydd i ddarparu addysg chweched dosbarth yn unig; ychwanegu addysg chweched dosbarth at unrhyw ysgol bresennol a gynhelir, neu ddileu'r addysg chweched dosbarth ohonynt; terfynu unrhyw ysgol chweched dosbarth bresennol; a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn os yw Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cynigion i ailstrwythuro'r chweched dosbarth.

86. Mae adran 77 yn gwneud diwygiadau canlyniadol mewn cysylltiad ag adroddiadau arolygu ar addysg chweched dosbarth. Darparodd adran 113 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ac Atodlen 7 iddi bwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynigion i derfynu ysgol nad oedd ond yn darparu addysg chweched dosbarth, neu i ddileu chweched dosbarth o ysgol. Ysgogwyd y pwerau hyn gan adroddiad arolygu anffafriol gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Gan fod adran 71 yn darparu p#er annibynnol i Weinidogion Cymru ddwyn cynigion gerbron i newid neu ddileu chweched dosbarth, nid oes bellach angen yr ysgogiadau yn Atodlen 7 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000. Fodd bynnag, mae'r gofyniad i adrodd ar wahân ar ddigonolrwydd addysg chweched dosbarth ysgol fel rhan o arolygiad ysgol cyffredinol, neu arolygiad ardal, yn dal i fod yn berthnasol, ac mae Deddf Addysg 2005 wedi ei diwygio er mwyn cadw'r gofyniad hwn. Mae'r adrannau hyn yn seiliedig ar y darpariaethau ym mharagraffau 1 i 6 o Atodlen 7 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.

### *Adran 78 - Ysgolion ffederal*

87. Mae adran 78 yn caniatáu i gynigion i sefydlu ysgol newydd gynnwys sefydlu ysgol fel ysgol ffederal. Ysgol ffederal yw ysgol sydd yn rhan o gr#p o ysgolion gydag un corff llywodraethu.

### *Adran 79 - Gwaharddiad ar awdurdodau lleol rhag sefydlu ysgolion yn Lloegr*

88 Mae'r adran hon yn gwahardd sefydlu ysgol yn Lloegr a fyddai'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r adran hon yn ailddeddfu adran 69 o Ddeddf Addysg 2005.

### *Adran 80 - Hysbysiad gan gorff llywodraethu am derfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol*

89. Mae'r adran hon, sy'n ailddeddfu ac yn diweddaru adran 30 o Ddeddf 1998, yn galluogi corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, drwy ddilyn y weithdrefn sy'n ofynnol gan yr adran hon, i derfynu ei ysgol drwy gyflwyno hysbysiad am gyfnod o ddwy flynedd i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol.

### *Adran 81 - Cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod ysgol arbennig gymunedol yn cael ei therfynu*

90. Mae'r adran hon, sy'n ailddeddfu adran 32 o Ddeddf 1998 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod lleol i derfynu (heb yr angen am gynigion o dan adran 44) ysgol arbennig gymunedol os ystyriant ei bod yn hwylus i wneud hynny er mwyn iechyd, diogelwch neu lesiant y disgyblion. Cyn gwneud hynny, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau penodedig. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ddarparu hysbysiad i'r corff llywodraethu perthnasol a'r pennaeth.

## Rhan 4 - Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

91. Mae Rhan 4 yn creu gofyniad statudol bod yn rhaid i awdurdodau lleol gael cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg (CSCAau) yn barod yn eu lle. Mae hwn yn disodli cynllun gwirfoddol.

### *Adran 84 – Llunio cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg*

92. Mae'r adran hon yn nodi beth a ddylai gael ei gynnwys mewn CSCA. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i lunio cynllun, cadw golwg arno, a'i

ddiwygio os bydd angen. Mae'r adran hon hefyd yn nodi'r personau y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ymgynghori â hwy wrth lunio neu ddiwygio ei CSCA. Os yw awdurdod lleol wedi asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn unol ag adran 86, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried canlyniadau'r asesiad hwnnw wrth lunio neu wrth ddiwygio ei gynllun.

### *Adran 85 - Cymeradwyo, cyhoeddi a gweithredu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg*

93. Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno ei CSCA i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo. Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo, addasu neu wrthod CSCA (a gosod eu cynllun hwy yn ei le). Mae is-adran (7) yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i gymryd pob cam rhesymol i weithredu ei CSCA a gymeradwywyd. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdod lleol cyn iddynt addasu cynllun yr awdurdod lleol neu roi cynllun arall yn ei le.

### *Adran 86 - Asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg*

94. Mae'r adran hon yn darparu p#er i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu'r galw gan rieni am addysg cyfrwng Cymraeg mewn amgylchiadau penodol. Caiff y rheoliadau hynny wneud darpariaeth ynghylch sut a phryd y dylai awdurdod lleol wneud asesiad o'r galw.

### *Adran 87 - Rheoliadau a chanllawiau*

95. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn gwneud darpariaethau pellach ar faterion megis ffurf a chynnwys CSCA, ei amseriad a'i barhad, cadw golwg ar CSCA ac ymgynghori arno a chyflwyno CSCA i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru a'i gyhoeddi. Caiff rheoliadau hefyd wneud darpariaeth i alluogi cydgynllun gan ddau awdurdod lleol neu ragor.

96. Mae'r adran hon hefyd yn darparu p#er i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddynt wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 4 o'r Ddeddf hon.

## Rhan 5 - Swyddogaethau Amrywiol Ysgolion

### *Adran 88 – Dyletswydd i ddarparu brecwast am ddim i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd*

97. Mae adran 88 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu brecwast am ddim ar bob diwrnod ysgol i ddisgyblion mewn ysgol gynradd y mae'n ei chynnal os yw'r corff llywodraethu wedi gwneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod lleol am ddarparu brecwast a bod 90 o ddiwrnodau wedi mynd heibio ers i'r awdurdod gael y cais.

98. Ni fydd dyletswydd yr awdurdod lleol i ddarparu brecwast yn gymwys os yw'r corff llywodraethu wedi gofyn i'r awdurdod lleol beidio â darparu brecwast, neu fod yr awdurdod lleol yn penderfynu y byddai darparu neu barhau i ddarparu brecwast yn yr ysgol yn afresymol.

99. Mae'r adran yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu bodloni pan fydd yn gwneud trefniadau brecwast. Mae'n darparu p#er hefyd i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu roi sylw iddynt.

### *Adran 89 – Darpariaeth drosiannol*

100. Mae is-adran (1) o'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod lleol sy'n cynnal ysgol gynradd, neu ei chorff llywodraethu, eisoes yn darparu brecwast i ddisgyblion ar yr adeg y daw dyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 88 i rym. Yn yr amgylchiadau

hynny, mae dyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 88 yn gymwys mewn perthynas â'r ysgol fel petai gofynion adran 89(1) wedi eu bodloni.

101. Mae is-adrannau (2) a (3) yn gymwys os yw corff llywodraethu ysgol gynradd a gynhelir wedi gwneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod lleol ddarparu brecwast yn yr ysgol cyn i ddyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 89 ddod i rym, ac ni wnaed trefniadau gan yr awdurdod lleol na'r corff llywodraethu i frecwast gael ei ddarparu ar gyfer disgyblion yn yr ysgol. Yn yr amgylchiadau hynny, mae'r cais a wnaed gan y corff llywodraethu i gael ei drin fel petai wedi cael ei wneud ar y diwrnod y daeth dyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 88 i rym.

### *Adran 91 – Diwygio'r p#er i godi tâl am brydau bwyd ysgol etc.*

102. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 512ZA (p#er i godi tâl am brydau bwyd etc) a 533 (swyddogaethau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir mewn cysylltiad â darparu prydau bwyd ysgol etc) o Ddeddf Addysg 1996.

103. Mae is-adrannau (2)(b) a (3)(b) yn diddymu'r gofyniad bod yn rhaid i unrhyw dâl a godir am ddarparu llaeth, prydau bwyd a lluniaeth arall mewn ysgol fod yr un fath ar gyfer pob person am yr un nifer o'r un eitem. Bydd diddymu'r gofyniad hwn yn rhoi'r dewis i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu godi pris gwahanol am yr un nifer o'r un eitem.

104. Bydd codi prisiau hyblyg er enghraifft yn galluogi awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i godi llai am brydau bwyd ysgol a ddarperir i blant teuluoedd ar incwm isel nad ydynt yn gymwys i gael prydau bwyd ysgol am ddim er mwyn eu hannog i gymryd prydau bwyd ysgol. Mae codi prisiau hyblyg yn ddewisol ac yn ddarostyngedig i amgylchiadau lleol. Ni fydd y newid hwn yn cael effaith ar ddarparu prydau bwyd ysgol am ddim (na llaeth am ddim) i ddisgyblion cymwys.

105. Effaith y diwygiadau a wnaed gan is-adrannau (2)(a) a (3)(a) yw bod awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn cael eu hatal rhag codi mwy na chost darparu llaeth, prydau bwyd neu luniaeth arall i ddisgyblion. Ar hyn o bryd, nid oes uchafswm ar faint y gall ysgol godi ar ddisgybl. Ni fydd hyn yn cael effaith ar y ddarpariaeth o brydau bwyd ysgol am ddim (na llaeth am ddim) i ddisgyblion cymwys.

### *Adran 92 – Gwasanaethau cwnsela annibynnol ar gyfer disgyblion ysgol a phlant eraill*

106. Mae adran 92 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud darpariaeth resymol am wasanaeth cwnsela annibynnol mewn cysylltiad ag anghenion iechyd, anghenion emosiynol ac anghenion cymdeithasol ar gyfer categorïau penodedig o bersonau. Mae’r adran hon yn nodi’r gofynion y mae’n rhaid i awdurdod lleol eu bodloni wrth iddo wneud trefniadau cwnsela.

107. Mae hefyd yn darparu p#er i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau cwnsela mewn mannau a bennir yn y rheoliadau.

### *Adran 93 – Gwybodaeth am wasanaethau cwnsela annibynnol eraill*

108. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gael gwybodaeth gan awdurdod lleol ynghylch ei wasanaeth cwnsela annibynnol. Mae is-adrannau (1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gydymffurfio â chyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru drwy ddarparu a chrynhoi gwybodaeth yngl#n â’r gwasanaeth cwnsela. Mae is-adran (3) yn atal datgelu pwy yw unigolyn dynodedig ac mae is-adran (4) yn nodi’r sefyllfa pan nad yr awdurdod lleol yw’r person sy’n darparu’r gwasanaeth cwnsela.

### *Adran 94 – Dyletswydd corff llywodraethu ysgol a gynhelir i gynnal cyfarfodydd yn dilyn deiseb gan rieni*

109. Mae’r adran hon yn darparu bod rhaid i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod os bodlonir y pedwar amod isod -

- mae wedi cael deiseb yn gofyn am gyfarfod gan ba un bynnag o’r canlynol yw’r nifer isaf:

  rhieni 10% o’r disgyblion cofrestredig, neu;

  rhieni 30 o ddisgyblion cofrestredig;

- diben y cyfarfod yw trafod mater sy’n ymwneud â’r ysgol;
- ni fydd mwy na thri chyfarfod o’r fath mewn blwyddyn ysgol; a
- mae digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol er mwyn cynnal y cyfarfod.

110. Ar ôl cael cais rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu rhieni’r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol am ddyddiad a diben y cyfarfod a rhaid iddo gynnal y cyfarfod o fewn 25 o ddiwrnodau (fel y cânt eu cyfrifo yn unol ag is-adran (9) a (10)) ar ôl cael y ddeiseb.

111. Rhaid i'r corff llywodraethu roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ar sut y mae i gyflawni ei ddyletswydd yn yr adran hon.

### *Adran 95 – Diddymu dyletswydd i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni*

112. O ganlyniad i’r ddarpariaeth ar gyfarfodydd rhieni yn adran 94, mae'r adran hon yn diddymu adran 33 o Ddeddf Addysg 2002, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gynnal cyfarfod blynyddol rhieni (ac felly bydd Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005 a wnaed o dan y p#er hwnnw yn dirwyn i ben).

## Rhan 6 - Cyffredinol

### *Adran 97 – Gorchmynion a rheoliadau*

113. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau a'r gorchmynion o dan y Ddeddf gael eu gwneud drwy offeryn statudol ac mae'n darparu gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â’r offerynnau hyn.

### *Adran 98 – Dehongli’n gyffredinol a mynegai o ymadroddion sydd wedi eu diffinio*

114. Mae adran 98 yn diffinio termau a ddefnyddir yn y Ddeddf a hefyd mae'n cynnwys mynegai o dermau sydd wedi eu diffinio at ddiben rhai darpariaethau yn y Ddeddf. Mae is-adran (1) yn darparu bod y Ddeddf i'w darllen fel petai’n un â Deddf Addysg 1996. Mae hyn yn golygu bod y darpariaethau cyffredinol a'r diffiniadau cyffredinol yn y Ddeddf honno yn gymwys hefyd i'r Ddeddf hon. Er enghraifft, mae'r diffiniad o “education functions” awdurdod lleol yn Neddf Addysg 1996 yn cyfeirio at y swyddogaethau a nodir yn Atodlen 36A i'r Ddeddf honno. Mae'r term “swyddogaethau addysg” pan y'i defnyddir yn y Ddeddf hon, yn golygu'r un peth ag “education functions” yn Neddf 1996. Os oes gwahaniaeth mewn ystyr rhwng term a ddefnyddir yn y Ddeddf hon a therm yn Neddf Addysg 1996, mae'r ystyr a roddir at ddibenion y Ddeddf hon yn gymwys iddo.

### *Adran 99 ac Atodlen 5 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol*

115. Mae adran 99 yn rhoi effaith i Atodlen 5, sy'n cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i'r darpariaethau yn Rhannau 2, 3 a 5 o’r Ddeddf hon.

116. Ymhlith pethau eraill mae'n diwygio Mesur Byrddau Addysg Esgobaethol 1991. Mesur Eglwys Loegr yw hwn. Tra bo Cymru gyfan, bron, o fewn ffiniau'r Eglwys yng Nghymru, mae ambell blwyf ym Mhowys yn ffurfio rhan o esgobaeth sydd o fewn Eglwys Loegr.

117. Gallai diwygiadau i Fesur Eglwys Loegr fod wedi cael eu gwneud gan y Ddeddf hon, gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan Ddeddf Seneddol y DU neu gan Fesur Eglwys Loegr. Ceisiodd Llywodraeth Cymru farn Eglwys Loegr ar y mater hwn a sicrhau bod yr Ysgrifennydd Cyffredinol i Gyngor yr Archesgobion yn cytuno i'r diwygiadau sydd i'w gwneud gan y Ddeddf hon.

### *Adran 100 – Cychwyn*

118. Mae'r adran hon yn darparu bod adrannau 1 (trosolwg ar y Ddeddf hon), 100 (cychwyn) a 101 (enw byr y Ddeddf hon a'i chynnwys yn un o'r Deddfau Addysg) yn dod i rym drannoeth y diwrnod y ceir y Cydsyniad Brenhinol.

119. Mae adrannau 88 i 90 (brecwast am ddim) ac adrannau 92 a 93 (cwnsela mewn ysgolion) yn dod i rym ar 1 Ebrill 2013.

120. Mae Pennod 3 (canllawiau gwella ysgolion) o Ran 2, adran 91 (diwygio'r p#er i godi tâl am brydau bwyd ysgol etc) a pharagraffau 31, 34(1) a (3), 35 a 36 o Ran 3 o Atodlen 5 (diwygiadau o ganlyniad i adran 91) (ac adran 99 mewn perthynas â'r paragraffau hynny), ac adrannau 94 a 95 (cyfarfodydd rhieni) a pharagraff 33 o Ran 3 o Atodlen 5 (diwygiadau o ganlyniad i adrannau 94 a 95) yn dod i rym ddau fis ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol.

121. Daw gweddill y Ddeddf i rym yn unol ag un neu ragor o orchmynion cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

### *Adran 101 – Enw byr y Ddeddf hon a'i chynnwys yn un o'r Deddfau Addysg*

122. Mae'r adran hon yn sefydlu enw'r Ddeddf fel Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae hefyd yn darparu bod y Ddeddf i'w chynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw gyfeiriadau mewn unrhyw ddeddfwriaeth at "y Deddfau Addysg" yn cynnwys y Ddeddf hon.

### *Atodlen 1*

123. Cyflwynir Atodlen 1 gan adran 18.

### *Atodlen 2*

124. Cyflwynir Atodlen 2 gan adran 40.

### *Atodlen 3*

125. Cyflwynir Atodlen 3 gan adran 55.

### *Atodlen 4*

126. Cyflwynir Atodlen 4 gan adran 55.

### *Atodlen 5*

127. Cyflwynir Atodlen 5 gan adran 99.

## COFNOD O'R TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

128. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir dod o hyd i Gofnod y Trafodion a gwybodaeth bellach ar hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=3633**

| ***Cyfnod*** | ***Dyddiad*** |
|---|---|
| Cyflwyno | 23 Ebrill 2012 |
| Cyfnod 1 – Dadl | 23 Hydref 2012 |
| Cyfnod 2 – Pwyllgor Craffu yn ystyried y gwelliannau | 14 ac 28 Tachwedd 2012 |
| Cyfnod 3 – Y Cyfarfod Llawn yn ystyried y gwelliannau | 15 Ionawr 2013 |
| Cyfnod 4 – Cymeradwyaeth gan y Cynulliad | 15 Ionawr 2013 |
| Y Cydsyniad Brenhinol | 4 Mawrth 2013 |